**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN NEUADD Y SIR AC AR ZOOM AR DDYDD IAU, 7 RHAGFYR 2023**

PRESENNOL
Cynghorydd Sir Beverley Baynham (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir Danny Bebb, Graham Breeze, Jake Berriman, Little Brighouse, Jeremy Brignell-Thorp, Jackie Charlton, Richard Church, Tom Colbert, Sian Cox, Aled Davies, Angela Davies, Bryan Davies, Bryn Davies, Sandra Davies, Raiff Devlin, Matthew Dorrance, Deborah Edwards, Josie Ewing, Les George, James Gibson-Watt, Claire Hall, Ian Harrison, Kelly Healy, Heulwen Hulme, Amanda Jenner, Claire Johnson-Wood, Adrian Jones, Arwel Jones, Ed Jones, Gareth D Jones, Gareth E Jones, Joy Jones, Adam Kennerley, Corrina Kenyon-Wade, Pete Lewington, Karl Lewis, Peter Lewis, William Lloyd, Iain McIntosh, David Meredith, Gary Mitchell, Geoff Morgan, William Powell, Glyn Preston, Gareth Pugh, Jeremy Pugh, Gareth Ratcliffe, Liz Rijnenberg, Lucy Roberts, Pete Roberts, Carol Robinson, Edwin Roderick, David Selby, Gwynfor Thomas, Elwyn Vaughan, Chris Walsh, Jonathan Wilkinson, Ange Williams, Huw Williams, Michael Williams a Sarah Williams.

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Estynnodd y Cadeirydd groeso i dri Chynghorydd newydd, Raiff Devlin, Claire Hall a Chloe Masefield.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir Benjamin Breeze, Peter James, Susan McNicholas a David Thomas. Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd oddi wrth y Cynghorydd Sir Gareth Morgan oherwydd materion TG yn ei atal rhag ymuno â'r cyfarfod.

| 2. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodwyd y Cadeirydd i arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2023 fel cofnod cywir.

Cwestiynodd y Cynghorydd Sir Aled Davies pam nad oedd testun ei gwestiwn brys wedi cael ei gofnodi yng nghofnodion cyfarfod y 5 Hydref 2023. Cynghorodd y Pennaeth Cyfreithiol a Swyddog Monitro y byddai'n edrych unwaith eto ar eiriad y cofnod ar gyfer yr eitem honno.

Yn amodol ar gynnwys y Cynghorydd Sir Josie Ewing yn y rhestr o aelodau oedd yn bresennol, awdurdodwyd y Cadeirydd i arwyddo cofnodion cyfarfod y 5 Hydref 2023 fel cofnod cywir. Dywedodd y Cynghorydd Sir Aled Davies y byddai'n ymatal gan nad oedd ei gwestiwn wedi'i gynnwys.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Gareth E Jones nad oedd Cynghorwyr wedi derbyn manylion eto o ran canran y cysylltiadau ieuenctid a wnaed gyda'r CFfI fel y gwnaed cais amdano yn y cyfarfod ar 5 Hydref.

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Ni chyflwynwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad gyda theulu Anwen Peters, Uwch Swyddog Gwasanaethau Cwsmer yn Aberhonddu, a oedd wedi marw. Cafodd y Cyngor wybod hefyd am farwolaeth ddiweddar y cyn Gynghorydd Sir Tegwyn Jones, a gynrychiolodd Llansantffraid o 1989 tan 2012.

Rhoddodd y Cadeirydd fanylion ei hymgysylltiadau diweddar gan gynnwys cyflwyno Medal Profion Niwclear i Mr Brian Davies o Lanfair Caereinion, cyn-filwr fu'n rhan o brofion niwclear yn yr 1950au. Cyhoeddodd fod cyfarfod diwethaf y Cyngor wedi codi £222 ar gyfer banciau bwyd lleol ac y byddai'n gwneud cyfraniad o £100 yr un ar gyfer y 13 banc bwyd sy'n gweithredu ym Mhowys o Gronfa'r Cadeirydd a chyfraniad pellach o £500 i elusen Helping our Homeless Cymru.

Dywedodd fod cynrychiolwyr o Faethu Cymru Powys yn y cyntedd a gofynnodd i'w chydweithwyr geisio dod o hyd i un teulu maeth newydd o leiaf yr un.

## 5. CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD

Cyfeiriodd yr Arweinydd at arwyddo Partneriaeth y Gororau Ymlaen gyda Chyngor Sir Amwythig, Cyngor Sir Henffordd, Cyngor Sir Fynwy a Phowys. Byddai'r awdurdodau yn gweithio gyda Llywodraethau Cymru a'r DU i wneud cynnydd ar gydweithrediad ar draws y ffiniau. Roedd hefyd yn falch o nodi fod nawdd Ffyniant Bro o £17.7 miliwn wedi cael ei dderbyn. Rhoddodd glod i dîm Caffael a Masnachol y Cyngor am ennill y categori Caffael Cynaliadwy yng Ngwobrau Go Cymru 2023/24. Roedd y wobr yn gydnabyddiaeth o waith y tîm i ostwng ôl troed Carbon y Cyngor trwy newid y ffordd mae'n prynu nwyddau a gwasanaethau, gan gael eu gwobrwyo gyda gwobr genedlaethol. Mynegodd longyfarchiadau pellach i Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt ar ennill y categori diogelwch cyhoeddus yn y Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel agoriadol, a gynhaliwyd gan Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, mewn cydnabyddiaeth o'i waith gyda Sioe Frenhinol Cymru. Nododd yr Arweinydd y byddai'r ymgynghoriad ar y gyllideb yn cael ei gynnal tan 5 Ionawr a rhoddodd anogaeth i aelodau ymgysylltu â'r broses gan helpu i esbonio'r sefyllfa ariannol anodd mae'r cyngor ynddi. Yn olaf, mynegodd ddiolch i'r staff Priffyrdd a oedd wedi delio mor effeithlon gyda ffordd yr A470 ar gau yn Nhalerddig yn dilyn rhan o'r ffordd yn cwympo.

## 6. BRIFFIO GAN Y PRIF WEITHREDWR

Nid oedd unrhyw friffio gan y Prif Weithredwr.

## 7. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

7.1. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Thrawsnewid Corfforaethol oddi wrth Nigel Williams**

Pa sancsiynau sy'n cael eu gosod ar benaethiaid adrannau sy'n methu diwallu gofynion cyllidebol maen nhw wedi'u cynnig blwyddyn ar ôl blwyddyn ac eto'n methu â'u cyflawni'n flynyddol? Mae'n ymddangos yn ddibwrpas i osod y targedau hynny, gan eu bod, i rai penaethiaid adrannau, yn ddiystyr ac yn cael eu hanwybyddu ar sail flynyddol.

Ymateb

Mae'r Cyngor yn gweithredu o fewn ei Gyfansoddiad, sy'n nodi sut mae'r cyngor yn cynnal ei fusnes, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau swyddogion a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Mae set o Reolau Gweithdrefnau gan gynnwys Rheolau Gweithdrefn Gyllidebol Adran 15 ac Adran 16 sy'n dynodi Rheoliadau Ariannol y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys y fframwaith a gweithdrefnau ariannol ar gyfer rheoli materion ariannol y Cyngor. [Cyfansoddiad y Cyngor a llywodraethu corfforaethol – Cyngor Sir Powys]

Mae'r Swyddog Adran 151 yn sicrhau cydymffurfiaeth effeithiol gyda'r trefniadau hyn ar draws y Cyngor gan yr holl Wasanaethau, yr holl staff a chynghorwyr. Wedi eu cynnwys o fewn Rheolau'r Weithdrefn Ariannol mae rheolau sy'n dynodi sut mae'r gyllideb yn cael ei phennu a sut mae'r gyllideb yn cael ei rheoli trwy'r flwyddyn.

Cymeradwyir y gyllideb flynyddol bob blwyddyn wedi i Benaethiaid Gwasanaethau ddarparu sicrwydd eu bod yn pennu cyllideb gadarn y gellir ei chyflwyno, gan ganiatáu felly i'r Swyddog Adran 151 gadarnhau fod y cynnig cyllidebol cyffredinol yn gadarn ac yn un y gellir ei gyflawni. Mae'r Penaethiaid Gwasanaethau yn dynodi eu risgiau hysbys a materion posibl a all ddigwydd wrth gyflwyno eu cyllidebau, ac mae hyn yn amlygu lle na all gwasanaethau gyflwyno eu holl gynilion, neu bwysau na ellir eu rhagweld o ran costau a all godi.

Mae ychydig o hyblygrwydd gan y Pennaeth Gwasanaeth i symud eu cyllidebau o gwmpas i ddarparu ar gyfer cyllidebau sydd llawer yn uwch neu'n is na'r hyn sy'n cael ei ragweld ar yr amod eu bod yn parhau o fewn eu cyllideb gyffredinol. Mae'r Cyngor yn delio â chyllidebau gyda gorwariant cyn gynted ag y dônt i'r amlwg, gan sicrhau fod gwasanaethau yn gweithredu i liniaru'r gorwariant a chyflwyno cynllun i adfer eu sefyllfa. Nid yw cynllun adferiad yn ymarferol bob tro, yn enwedig lle mae'r gwasanaethau hynny yn wynebu cynnydd mewn galwadau na ellir eu rhwystro na'u gostwng, felly efallai y bydd angen cynllun lliniaru sy'n cynnwys cyllideb risg a reolir yn ganolog. Gellir ond defnyddio'r gyllideb hon wedi i'r Pennaeth Gwasanaeth esbonio'r amgylchiadau o ran y pwysau sy'n creu'r gorwariant a pham na ellir ei drafod o fewn cyllidebau eraill y gwasanaeth hwn. Rhaid cymeradwyo hyn gan y Cabinet.

Disgwylir i Benaethiaid wedi hynny i ail-alinio pwysau cyllidebol fel rhan o'r broses gynllunio gyllidebol nesaf i sicrhau eu bod yn trafod y materion cyllidebol fel na fyddant yn ailddigwydd pob blwyddyn.

Cyflwynir adroddiadau yn rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y gyllideb a bydd rheolwyr cyllidebau yn cael eu herio ar eu perfformiad ariannol trwy eu harolygon perfformiad unigol. Byddai unrhyw faterion neu bryderon ynghylch rheolaeth ariannol yn cael eu trafod trwy'r weithdrefn ddisgyblu.

Er mwyn cael dealltwriaeth well o faterion cyllidebol, rydym hefyd yn dibynnu ar yr her a'r gefnogaeth oddi wrth y Pwyllgorau Craffu ac Archwilio Mewnol a fydd hefyd yn adolygu gwariant Gwasanaethau, y camau gweithredu a gymerir a'r rheoliadau sydd ar waith.

Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.

7.2. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach oddi wrth Peter Foulkes**

Pam mae CSP mor amharod i drawsnewid statws Cilffordd sy'n Agored i Bob Cerbyd o ran Llwybr y Mynaich (Monks Trod) i fod yn Llwybr Ceffyl, gan ei fod yn croesi adran Powys o'r Elenydd? Mae'r diweddaru hwn ar statws Hawl Tramwy (HT) y llwybr yn ateb amlwg i'r difrod ofnadwy sy'n cael ei achosi o hyd at y llwybr hynafol hwn, y mae rhan ohono yn croesi'r Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG).

Ymateb

Llwybr hynafol yw Llwybr y Mynaich sy'n mynd dros dirwedd fregus ac rydym yn gweithio tuag at ganfod ffordd ymlaen a fydd yn caniatáu ar gyfer ei ddefnydd cynaliadwy, trwy ddull cydweithredol, ar draws yr amrywiol randdeiliaid a grwpiau defnyddwyr.

Barn yr awdurdod lleol yw y bydd terfyn cyfreithiol neu newid statws ar ben ei hunan yn arbennig o annhebygol o ddatrys yr anawsterau. Dyma wlad agored, sydd heb ei ffensio, sy'n gwneud rheoli, monitro a gorfodi unrhyw fath o gyfyngiad yn eithriadol o heriol.

Er mwyn cyflawni deilliant positif, rydym yn ystyried fod rhaid i ni barhau i ymgysylltu gyda'r grwpiau defnyddwyr sy'n cael mynediad at yr ardal hon a chynyddu ymwybyddiaeth am y rhesymau pam mae angen i ni ei diogelu. Mae'r tîm Cefn Gwlad a Hamdden hefyd yn archwilio opsiynau ariannu; gan fod Llwybr y Mynaich yn llwybr eiconig sy'n croesi ffiniau gyda photensial arwyddocaol iawn ar gyfer twristiaeth.

I grynhoi, mae gwaith ar fynd i edrych ar yr holl opsiynau ac yn benodol, i gyflawni cydweithrediad gyda phawb sydd â diddordeb, gan na fydd unrhyw ateb yn effeithiol heb hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol Mr Foulkes ar nifer yr achosion o ganiatâd a roddir gan y cyngor i feicwyr modur oddi ar y ffordd i ddefnyddio'r rhan o'r Llwybr gyda Gorchymyn Rheoli Traffig dros dro, roedd yr Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach yn cynghori nad oedd unrhyw achosion o ofyn am ganiatâd wedi bod nac wedi'u caniatáu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mewn ymateb i'r cwestiwn pam mae Gorchymyn Rheoli Traffig (GRhT) parhaol wedi cael ei roi ar waith ar gyfer cerbydau modur pedair olwyn, ond dim ond cyfres o Orchmynion Rheoli Traffig dros dro ar gyfer beiciau modur oddi ar y ffordd, esboniodd yr Aelod Cabinet fod y GRhT parhaol wedi bod ar waith ers yr 1990au. Cyn y gallai wneud GRhT newydd, byddai rhaid i'r Cyngor arddangos y byddai'r ffordd hon o weithredu yn datrys yr anawsterau a amlygwyd ac a allai camau gweithredu eraill helpu'r Cyngor i ddiwallu ei ddyletswydd gyfreithiol i

fynnu'r hawl tramwy cyhoeddus dros y llwybr. Mae swyddogion yn trafod gyda chydweithwyr yng Nghyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Ceredigion ac yn asesu dichonolrwydd sawl opsiwn.

**7.3. Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach oddi wrth John Williams**

Ar ddechrau mis Hydref, cynhaliwyd pôl o fewn 3 neu ragor o'r grwpiau Facebook cymunedol mwyaf poblogaidd yn Y Drenewydd, i benderfynu sut yr oedd pobl yn teimlo am orfodi'r parthau 20 milltir yr awr ar Ffordd Y Trallwng a Ffordd Ceri yn Y Drenewydd. Mewn 2 ddiwrnod yn unig, roedd y mwyafrif llethol o ymatebwyr o blaid dychwelyd at 30 milltir yr awr ar Ffordd Y Trallwng a Ffordd Ceri.

O ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd, a'r gefnogaeth lethol ar gyfer newid y 2 ffordd yma yn ôl i 30 milltir yr awr, pryd y gellir gweithredu hyn?

Ymateb

Daeth y ddeddfwriaeth newydd a newidiodd y terfyn cyflymder rhagosodedig o 30 milltir yr awr i 20 milltir yr awr ar 'ffyrdd cyfyngedig' yng Nghymru i rym ar yr 17 Medi 2023. Cyn y dyddiad hwn, roedd pob awdurdod priffyrdd wedi dynodi nifer o leoliadau lle yr ystyriwyd na ddylai'r terfyn cyflymder newydd o 20 milltir yr awr fod yn gymwys ac y dylai'r terfyn 30 milltir yr awr barhau ar waith.

Roedd y meini prawf, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ddwyster eiddo preswyl ac adwerthu cyfagos yn wynebu'r ffordd ac agosatrwydd cyfleusterau megis sefydliadau addysgol, canolfannau cymunedol ac ysbytai ynghyd â llwybrau teithio llesol. Tra nad yw hyn yn weithdrefn benodol ac mae'n agored i ddehongliad, cydnabyddir y gall rhai ardaloedd fod angen eu hailasesu.

Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl am gyhoeddi diweddariad i ddogfen cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru sef 'Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru'. Rhagwelir y bydd y ddogfen hon yn cael ei chyhoeddi yn 2024 ac y bydd yn cwmpasu cyfarwyddyd diwygiedig ar ba ffyrdd ddylai fod yn 30 milltir yr awr neu 20 milltir yr awr.

Ers cyflwyno'r cyfyngiadau 20 milltir yr awr newydd, mae trafodaeth sylweddol wedi bod ymysg awdurdodau priffyrdd led led Cymru am y broses o adolygu ei safleoedd eithriadau. Y consensws yw y dylid caniatáu i'r terfynau 20 milltir yr awr newydd sefydlu eu hunain am tua 12 mis ac yn y cyfamser, bydd awdurdodau yn casglu'r holl geisiadau a sylwadau a dderbynnir i'w hystyried yn y dyfodol. Bydd yr arolygon hynny yn cael eu cynnal wedi hyn, ar ôl i'r cyfnod o 12 mis fynd heibio ac wedi llunio cyfarwyddyd diwygiedig Llywodraeth Cymru.

Yn ei gwestiwn atodol, gofynnodd Mr Williams am faint o arian oedd yn weddill o'r dyraniad i gywiro rhai o'r terfynau. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod ychydig o lithrant wedi bod ac y byddai rhoi gwybod i Mr Williams am y swm. Roedd hi hefyd yn cynghori y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddyd pellach ar osod terfynau cyflymder lleol.

### 7.4. Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach oddi wrth Ian a Jane Whyte

Rydym yn rhedeg safle glampio bychan ond prysur rhwng Llansantffraid a Llanfechain gan ddenu gwersyllwyr o bob cwr o'r wlad ac Ewrop.

Dro ar ôl tro, rhoddir adborth negyddol i ni am gyflwr gwael y llwybrau troed cyhoeddus yn ein hardal gyfagos, yn benodol ynghylch diffyg arwyddion, cloeon clap ar gatiau mynediad, llystyfiant wedi gordyfu dros lwybrau a thirfeddianwyr ymosodol.
Yn ddiau, mae angen i ni ddenu cymaint o dwristiaid ag sy'n bosibl i'n hardal brydferth a'u hannog i ddychwelyd. Rydym hefyd yn siŵr y byddai'r holl gerddwyr lleol wrth eu boddau'n cael mwy o fynediad at ein llwybrau troed yng nghefn gwlad.
Cwestiwn syml ….. Pam nad oes cynnal a chadw sylfaenol ar y llwybrau troed hyn a sut gellid datrys y broblem hon?

Ymateb

Cyngor Sir Powys sy'n gyfrifol am y rhwydwaith Hawliau Tramwy sy'n estyn dros 9250 cilomedr, ac mae'r gyllideb graidd i gefnogi cynnal a chadw'r rhwydwaith yn eithriadol o gyfyngedig sy'n cyflwyno heriau ynddo'i hunan. Caiff yr heriau hyn eu cydnabod yn ein Cynllun Gwella Hawliau Tramwy: Hawliau Tramwy: Cynllun Gwella – Cyngor Sir Powys

Caiff pwysau cyllidebol ei adolygu bob blwyddyn gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae pwysau arwyddocaol yn parhau i fodoli ar draws y Cyngor wrth gyflwyno gwasanaethau statudol a phwysig, ac mae bwlch ariannol cyfredol ac yn y dyfodol y mae angen i'r awdurdod ei reoli wrth flaenoriaethu ei adnoddau. Nid yw'r darlun hwn yn debygol o wella yn anffodus dros y tymor byr i ganolig, ond mae'r tîm Cefn Gwlad a Hamdden ymroddedig fodd bynnag yn parhau i ymgeisio am gyfleoedd ariannu lle'n bosibl, i geisio a lliniaru'r straen ar nawdd craidd a chefnogi ein cymunedau lleol.

Mae llwyddiannau grant diweddar yn cynnwys Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru 2022-25, Y Gronfa Ffyniant Gyffredin a nawdd dros dro'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn fwyaf diweddar.

Bydd y tîm yn parhau i weithio'n ddiflino gyda chymunedau lleol gan ymdrechu i'w cefnogi hwy wrth edrych am ffynonellau potensial o nawdd a byddant hefyd yn parhau i annog a gweithio ochr yn ochr â'n rhwydwaith gref o wirfoddolwyr. Mae croeso i unrhyw fyddai'n hoffi cymryd rhan mewn gwirfoddoli o'r fath ar gyfer y math hwn o weithgaredd gysylltu â'r tîm Cefn Gwlad a Hamdden.

Nododd yr Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach y sylwadau ychwanegol a wnaed gan y cwestiynwyr.

| 8. | TROSGLWYDDIADAU CYLLIDEBOL |
|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i argymhelliad gan y Cabinet ar gyfer trosglwyddiad cyllidebol i ariannu costau ychwanegol ar gyfer 2022-23. Byddai'r gyllideb yn cael ei throsglwyddo i gyllideb fenthyca a gynhelir yn ganolog sy'n

ariannu costau ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf. Roedd tanwariant yn y gyllideb hon oherwydd bod costau benthyca yn is na'r hyn a ragwelwyd gyda chynlluniau cyfalaf yn cael eu hail-broffilio i mewn ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Gan mai llithrant oedd hyn, cadarnhawyd na fyddai'n effeithio ar y rhaglen gyfalaf bresennol.

Cafodd yr argymhelliad ei symud gan y Cynghorydd Sir Gareth E Jones a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman. Trwy 52 pleidlais i 0 gyda 10 yn ymatal rhag pleidleisio,

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r trosglwyddiad fel y nodir yn yr adroddiad.**

| 9. | YSTYRIED SYSTEM PLEIDLAIS SENGL DROSGLWYDDADWY |
|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad gan yr Arweinydd ar gyflwyno system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV) ar gyfer etholiadau lleol 2027. Byddai hyn yn gofyn am ymgynghori gyda'r cyhoedd ac i'r Cyngor ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad gydag o leiaf mwyafrif o 2/3 o gyfanswm nifer yr Aelodau yn y Cyngor llawn. Gofynnwyd i'r Cyngor roi cymeradwyaeth i gynnal yr ymarferiad ymgynghoriad.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fod y Pwyllgor wedi bod yn unfrydol wrth wrthwynebu'r cynnig yn mynd allan i ymgynghoriad. Roedd arsylwadau'r Pwyllgor wedi'u cyflwyno mewn atodiad i'r adroddiad.

Cafodd yr argymhelliad ei symud gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Richard Church a thrwy 34 pleidlais i 26 gyda 2 yn ymatal rhag pleidleisio

**PENDERFYNWYD caniatáu i'r mater gael ei ystyried ymhellach yn dilyn proses ymgynghori statudol ac i gyrraedd penderfyniad terfynol cyn 15 Tachwedd 2024.**

| 10. | AROLWG O ARDALOEDD PLEIDLEISIO A MANNAU PLEIDLEISIO |
|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i gais i ddechrau arolwg statudol o ardaloedd pleidleisio a mannau pleidleisio. Mae dyletswydd ar y Cyngor i gynnal arolwg o fewn ffenestr o 16 mis rhwng 1 Hydref 2023 a 31 Ionawr 2025. Fe fyddai cyfnod ymgynghori o chwe wythnos gydag adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor ar 11 Gorffennaf ar gyfer ystyriaeth. Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Sir Beverley Baynham a'i eilio gan y Cynghorydd Sir William Powell a thrwy 53 pleidlais i 1 gyda 3 yn ymatal rhag pleidleisio

**PENDERFYNWYD**

1. **Y dylai'r Cyngor gymeradwyo dechrau'r arolwg gorfodol ar ardaloedd a mannau pleidleisio yn unol â'r amserlen ym mharagraff 13 o'r Adroddiad.**

**2. Y dylid cyflwyno Adroddiad Ymgynghori yn ôl i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2023 ar gyfer penderfyniad yn dilyn cwblhau'r broses arolygu.**

| 11. | CYFLWYNIAD GAN Y PRIF SWYDDOG TÂN |
|---|---|

Rhoddwyd cyflwyniad gan Roger Thomas, y Prif Swyddog Tân a Sarah Mansbridge, Trysorydd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar waith y gwasanaeth, gan ateb cwestiynau oddi wrth Aelodau.

Gohiriwyd y Cyngor am 13.43 gan ail-ymgynnull am 14.30.

PRESENNOL
Cynghorydd Sir Beverley Baynham (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir Danny Bebb, Graham Breeze, Jake Berriman, Little Brighouse, Jeremy Brignell-Thorp, Jackie Charlton, Richard Church, Tom Colbert, Sian Cox, Aled Davies, Angela Davies, Bryan Davies, Bryn Davies, Sandra Davies, Matthew Dorrance, Deborah Edwards, Josie Ewing, Les George, James Gibson-Watt, Claire Hall, Ian Harrison, Kelly Healy, Heulwen Hulme, Amanda Jenner, Claire Johnson-Wood, Adrian Jones, Arwel Jones, Ed Jones, Gareth D Jones, Gareth E Jones, Joy Jones, Adam Kennerley, Corrina Kenyon-Wade, Pete Lewington, Karl Lewis, Peter Lewis, William Lloyd, Iain McIntosh, Gary Mitchell, Geoff Morgan, William Powell, Glyn Preston, Gareth Pugh, Jeremy Pugh, Gareth Ratcliffe, Liz Rijnenberg, Lucy Roberts, Pete Roberts, Carol Robinson, David Selby, Gwynfor Thomas, Elwyn Vaughan, Chris Walsh, Jonathan Wilkinson, Ange Williams, Huw Williams, Michael Williams a Sarah Williams.

| 12. | PENODIADAU AR GYRFF ALLANOL |
|---|---|

Panel Cronfa Waddol Gymunedol Powys

Enwebwyd y Cynghorydd Sir Geoff Morgan.

**PENDERFYNWYD y dylid penodi'r Cynghorydd Sir Geoff Morgan ar Banel Cronfa Waddol Gymunedol Powys.**

Ffrindiau Eglwys y Santes Fair, Aberhonddu

Enwebwyd y Cynghorydd Sir Chris Walsh.

**PENDERFYNWYD y dylid penodi'r Cynghorydd Sir Chris Walsh ar Ffrindiau Eglwys y Santes Fair, Aberhonddu.**

| 13. | RHYBUDD O GYNNIG – ARWERTHIANNAU FFERMYDD |
|---|---|

Trafodwyd y cynnig canlynol gan y Cyngor a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Amanda Jenner a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Gareth D Jones

"Rydym yn galw ar y Cyngor i ofyn i'r Cabinet ymatal ar unwaith rhag ystyried unrhyw gynigion yn y dyfodol o fewn y flwyddyn ariannol bresennol ar gyfer arwerthiannau ffermydd gan aros i'r Cyngor Llawn gymeradwyo Polisi Ffermydd y Sir sydd wedi'i graffu'n iawn ac sy'n cynnwys polisi gwaredu/gwerthu tryloyw a phenodol o ran ffermydd ac eiddo fferm sy'n cael eu perchen gan y cyngor.

Wrth symud y cynnig, dadleuodd y Cynghorydd Jenner nad oes proses eglur ar gyfer arwerthiannau ffermydd ar waith. Trwy 49 pleidlais i 5 gyda 2 yn ymatal rhag pleidleisio

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Cabinet ymatal ar unwaith rhag ystyried unrhyw gynigion yn y dyfodol o fewn y flwyddyn ariannol bresennol ar gyfer arwerthiannau ffermydd gan aros i'r Cyngor Llawn gymeradwyo Polisi Ffermydd y Sir sydd wedi'i graffu'n iawn ac sy'n cynnwys polisi gwaredu/gwerthu tryloyw a phenodol o ran ffermydd ac eiddo fferm sy'n cael eu perchen gan y cyngor.**

| 14. | RHYBUDD O GYNNIG – FFIOEDD CYNLLUNIO |
|---|---|

Cafwyd trafodaeth gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Karl Lewis:

"Mae'r Cyngor yn gwahodd y Gweinidog i adolygu'r rheoliadau ffioedd ar frys ar gyfer Gwasanaethau Cynllunio er mwyn caniatáu pennu ffioedd yn lleol a chyflwyno'r egwyddor adfer costau llawn ar gyfer Rheoli Datblygu, ac i ystyried y cynnig canlynol:

- Ffioedd cais cynllunio yn seiliedig ar adfer y costau llawn, a ddiwygir yn flynyddol yn unol â chwyddiant.

- Dylid gwaredu â cheisiadau "ail gynnig/tro" am ddim wedi tynnu cais yn ôl neu wrthod cais a'u disodli gyda ffi o 50%. Byddai hyn yn hyrwyddo ymgysylltu cyn cyflwyno cais a chyflwyniadau ceisiadau cynllunio cychwynnol o ansawdd well, tra'n trafod y gost ariannol o brosesu ail-gyflwyniadau.

- Lle mae tirfeddiannwr yn torri rheolau cynllunio, dylid dyblu'r ffi ar gyfer ceisiadau ôl-weithredol, lle mae datblygiad wedi digwydd heb wneud unrhyw geisiadau am ganiatâd cynllunio.

- Lle mae tirfeddiannwr yn torri rheolau cynllunio ond yn gwrthod cyflwyno cais ôl-weithredol ac nad yw camau gorfodaeth yn gyfleus, y dylid rhoi pwerau i'r Awdurdod Cynllunio lleol i gyflwyno dirwy i'r troseddwr, gan ddyblu'r ffi cais cynllunio perthnasol o bosibl.

- Gwaredu â'r gofyniad i hysbysebu ceisiadau cynllunio unigol o fewn y cyfryngau argraffu neu drosglwyddo'r gost am wneud hynny i'r ymgeisydd.

- Oni bai y caiff ei ariannu'n gywir, ni ddylid bod gofyn ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i gyflwyno Adroddiad Effaith Lleol ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, (nid yw cytundebau perfformiad cynllunio gyda datblygwyr yn darparu ar gyfer adfer y gost lawn) ac ni ddylid bod "gofyn" arnynt i fynychu Archwiliad Cyhoeddus.

- Y dylid bod gofyn i dirfeddianwyr sy'n hyrwyddo safleoedd o fewn y CDLl i dalu ffi briodol. Nid yn unig y bydd hyn yn cynorthwyo'r Cyngor yn ariannol ond fe fydd, gobeithio, yn sicrhau fod y sawl sy'n cyflwyno safleoedd yn ddifrifol am eu cyflwyno a'r buddiannau a ddaw o'r dyraniadau, ar gyfer tai fforddiadwy ac ati, i'n cymunedau."

Roedd y Cynghorydd Berriman wedi dadlau fod ffioedd wedi cwympo y tu ôl i gostau a bod gofyn adfer costau llawn i helpu cynnal y gwasanaeth cynllunio.

Trwy 54 pleidlais i 0

**PENDERFYNWYD gwahodd y Gweinidog i adolygu'r rheoliadau ffioedd ar gyfer Gwasanaethau Cynllunio er mwyn caniatáu gosod ffioedd lleol a chyflwyno'r egwyddor adfer costau llawn ar gyfer Rheoli Datblygu, ac i ystyried y cynigion canlynol:**

- **Ffioedd cais cynllunio yn seiliedig ar adfer y costau llawn, a ddiwygir yn flynyddol yn unol â chwyddiant.**

- **Dylid gwaredu â cheisiadau "ail gynnig/tro" am ddim wedi tynnu cais yn ôl neu wrthod cais a'u disodli gyda ffi o 50%. Byddai hyn yn hyrwyddo ymgysylltu cyn cyflwyno cais a chyflwyniadau ceisiadau cynllunio cychwynnol o ansawdd well, tra'n trafod y gost ariannol o brosesu ail-gyflwyniadau.**

- **Lle mae tirfeddiannwr yn torri rheolau cynllunio, dylid dyblu'r ffi ar gyfer ceisiadau ôl-weithredol, lle mae datblygiad wedi digwydd heb wneud unrhyw geisiadau am ganiatâd cynllunio**

- **Lle mae tirfeddiannwr yn torri rheolau cynllunio ond yn gwrthod cyflwyno cais ôl-weithredol ac nad yw camau gorfodaeth yn gyfleus, y dylid rhoi pwerau i'r Awdurdod Cynllunio lleol i gyflwyno dirwy i'r troseddwr, gan ddyblu'r ffi cais cynllunio perthnasol o bosibl.**

- **Gwaredu â'r gofyniad i hysbysebu ceisiadau cynllunio unigol o fewn y cyfryngau argraffu neu drosglwyddo'r gost am wneud hynny i'r ymgeisydd.**

- **Oni bai y caiff ei ariannu'n gywir, ni ddylid bod gofyn ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i gyflwyno Adroddiad Effaith Lleol ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocad Cenedlaethol, (nid yw cytundebau perfformiad cynllunio gyda datblygwyr yn darparu ar gyfer adfer y gost lawn) ac ni ddylid bod "gofyn" arnynt i fynychu Archwiliad Cyhoeddus.**

- **Y dylid bod gofyn i dirfeddianwyr sy'n hyrwyddo safleoedd o fewn y CDLl i dalu ffi briodol. Nid yn unig y bydd hyn yn cynorthwyo'r Cyngor yn ariannol ond fe fydd, gobeithio, yn sicrhau fod y sawl sy'n cyflwyno safleoedd yn ddifrifol am**

**eu cyflwyno a'r buddiannau a ddaw o'r dyraniadau, ar gyfer tai fforddiadwy ac ati, i'n cymunedau."**

Dywedodd y Cynghorydd Berriman y byddai'n gweithio gyda'r Cynghorydd Aled Davies ar eiriad y pwynt bwled ychwanegol i'w ychwanegu at lythyr at Lywodraeth Cymru. Cytunwyd ar y geiriad canlynol wedi hynny:

Awdurdodau Cynllunio Lleol i fod yn atebol am welliannau i'r gwasanaeth yn gymesur â chynnydd cynaliadwy mewn ffioedd a hyrwyddo'r defnydd priodol o Gytundebau Perfformiad Cynllunio i sicrhau fod adnoddau ychwanegol yn cyfateb i welliannau mewn perfformiad.

| 15. | RHYBUDD O GYNNIG – DYNODI PARC CENEDLAETHOL NEWYDD |
|---|---|

Cafwyd trafodaeth gan y Cyngor yn dilyn cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies:

"I wrthwynebu cynnwys ardaloedd o Bowys yn ffurfiol o fewn ardal y Parc Cenedlaethol newydd ac i argymell ffin ddeheuol fel uchafswm yn seiliedig ar ffin y sir a chopaon Mynyddoedd y Berwyn."

Roedd y Cynghorydd Vaughan yn dadlau nad oedd hi'n gynaliadwy i greu awdurdod newydd yng Nghymru. Trwy 34 pleidlais i 4 gyda 16 yn ymatal rhag pleidleisio

**PENDERFYNWYD gwrthwynebu cynnwys ardaloedd o Bowys yn ffurfiol o fewn ardal y Parc Cenedlaethol newydd ac i argymhell ffin ddeheuol fel uchafswm yn seiliedig ar ffin y sir a chopaon Mynyddoedd y Berwyn."**

Cytunodd y Cadeirydd y dylid ystyried yr eitemau canlynol fel mater o frys gan fod angen sefydlu Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol cyn gynted ag sy'n bosibl a dim ond petai'r broses recriwtio yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2024 y gellid gwneud penodiadau o'r fath.

| 16. | EITEMAU WEDI'U HEITHRIO |
|---|---|

**PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail y byddai gwybodaeth dan gategori 1 Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007) yn cael ei datgelu iddynt.**

| 17. | STRWYTHUR UWCH REOLWYR |
|---|---|

Cafodd y Cyngor ei friffio gan y Prif Weithredwr ar y strwythur uwch reolwyr..

| 18. | PROSES RECRIWTIO AR GYFER CYFARWYDDWYR |
|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad cyfrinachol y Prif Weithredwr.

**PENDERFYNWYD**

**1. Cymeradwyo'r Disgrifiadau Swyddi a Manylion Personol a ddynodwyd yn Atodiadau A-E yr adroddiad.**

**2. Cymeradwyo'r tâl ar gyfer y swyddi canlynol fel y dynodwyd ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.**

**3. Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer hysbysebu'r swyddi fel y dynodwyd ym mharagraff 3.2 yr adroddiad ynghyd ag unrhyw gyfryngau neu rwydweithiau ychwanegol a ystyriwyd i fod yn briodol ac a gymeradwywyd gan Arweinydd y Cyngor.**

**4. Bod pecyn recriwtio rhyngweithiol yn cael ei ddylunio a'i hyrwyddo yn cynnwys deunydd a amlygwyd yn 3.3, gan gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol ychwanegol a ystyriwyd i fod yn briodol gan Arweinydd y Cyngor.**

**5. Cymeradwyo'r broses recriwtio fel y dynodir ym mharagraff 4.3 yr adroddiad.**

**6. Bod £25,000 yn cael ei drosglwyddo o'r gyllideb gorfforaethol wrth gefn i ddarparu ar gyfer costau recriwtio.**

**Cynghorydd Sir B Baynham (Cadeirydd)**